## Cyngor Cymuned Llansawel *Community Council*

**Cyfarfod Misol / *Monthly Meeting***

**Cyfarfod rhithwir trwy Zoom am**
**19:30 ar y 18fed o Fawrth 2021**
***Virtual meeting via Zoom at***
***19:30 on the 18th of March 2021***

**Yn bresennol / *Present*:**

Cynghorwyr / *Councillors*: Rhys George (Is-gadeirydd / Vice chair), Pat Racher & Rhys Green

Cyng. Sir / *County Cllr:* Eirwyn Williams

Clerc / *Clerk:* Angharad Lewis

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso / Welcome** |
| **2.** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb / *Apologies for absence***<br>Cyng. / *Cllrs* Kevin Davies (Cadeirydd / *Chair),* Lynne Jones, Sion Williams, Meurig Griffiths & Elsbeth Jenkins. |
| **3.** | **Datganiadau o ddiddordeb / *Declarations of interest***<br>Datganodd y Cyng. Eirwyn Williams diddordeb ym mhwynt 9.i (Apêl Cadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin).<br>Cllr. Eirwyn Williams declared an interested in point 9.i (Carmarthenshire County Council Chair's Appeal). |
| **4.** | **Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar y 18fed o Chwefror 2021**<br>***Minutes from the previous meeting held on the 18th of February 2021***<br>Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir gan y Cyng. Rhys Green ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Pat Racher.<br>*The minutes were accepted as a true record and proposed by Cllr Rhys Green and seconded by Cllr Pat Racher.* |
| **5.** | **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**<br><br>i. **Pont Tancoed, Heol Esgairdawe** – Mae'r mater hwn mewn llaw.<br>***Tancoed bridge, Esgairdawe Road** – This issue is in hand.*<br><br>ii. **Llygad-yr-ŷch, Heol Esgairdawe** – Ffos wedi blocio – Adroddwyd bod y Cyngor Sir yn bwriadu dadblocio'r ffos wythnos nesaf.<br>***Llygad-yr-ŷch, Esgairdawe Rd** – blocked trench - It was reported that the County Council is planning to unblock the trench next week.*<br><br>iii. **Heol Esgairdawe, nôl at Rhydcymerau (Maesteile)** – Adroddodd y Cyng. Eirwyn Williams ei fod wedi codi'r mater ynglŷn â'r coed sydd wedi gordyfu gyda'r Cyngor Sir.<br>***Esgairdawe Road, back towards Rhydcymerau (Maesteile)** - Cllr. Eirwyn Williams reported that he has raised the issue regarding the overgrown trees with the County Council.*<br><br>iv. **Gwefan** – Cytunwyd i gynnwys enwau a chyfeiriadau e-bost cynghorwyr ar y wefan.<br>***Website** – It was agreed to include the names and email addresses of councillors on the website.* |

| | |
|---|---|
| | v. **Hen adeilad yr hers** – Cadarnhaodd y Cyng. Rhys George y bydd Elgan yn rhoi dyfynbris cyntaf i ni ar gyfer drysau newydd i'r adeilad.<br>Y Clerc i anfon anfoneb at y Llew Du am y ffi rhentu ar gyfer yr adeilad am 2019/20 a 2020/21, cyfanswm o £52.00.<br>***The old Hearse building*** *– Cllr. Rhys George confirmed that Elgan will provide us with the first quote for new doors to the building.*<br>*The Clerk to invoice the Black Lion for the rental fee for the building for 2019/20 & 2020/21, totalling £52.00.*<br><br>vi. **Llifogydd** – Adroddodd y Cyng. Eirwyn Williams iddo gyfarfod yn ddiweddar ag S. Quick ac S. Lewis o'r Cyngor Sir i drafod y sefyllfa. Nodwyd bod y Cyngor Sir wedi bod yn glanhau'r draeniau a'r cwteri, allai fod o gymorth yn y tymor byr. Nodwyd problem, lle mae'r gwter yn rhedeg allan o'r afon ni all y pibellau ymdopi unwaith y bydd yr afon wedi codi uwchben y bibell. Mae'r Cyngor Sir yn edrych ar ddatrysiad tymor hir.<br>***Floods*** *- Cllr. Eirwyn Williams reported that he recently met with S. Quick and S. Lewis of the County Council to discuss the situation. It was noted that the County Council has been cleaning the drains and gutters, which may help in the short term. A problem was identified, where the gutter runs out of the river the pipes are unable to cope once the river has risen above the pipe. The County Council are looking into a longer term solution.*<br><br>vii. **Sesiynau Hyfforddi** – Mynychodd y Clerc a'r Cyng. Pat Racher sesiwn hyfforddi ar-lein Cyllid Llywodraeth Leol neithiwr (17.03.21). Soniodd y Clerc ei bod hefyd wedi archebu 2 le yn y sesiwn ar-lein Deall y Gyfraith ar 31 Mawrth am 6.30pm. Cytunwyd y bydd y Clerc a'r Cyng. Rhys George yn ceisio mynychu'r sesiwn ar 31 Mawrth.<br>***Training sessions*** *– The Clerk and Cllr Pat Racher attended the Local Government Finance online training session yesterday evening (17.03.21). The Clerk mentioned that she has also booked 2 places on the Understanding the Law online session on the 31st March at 6.30pm. It was agreed that the Clerk and Cllr Rhys George will try to attend the session on the 31st March.* |
| **6.** | **Dyfodol Adeilad Ysgol Llansawel / *The Future of Llansawel School Building***<br>Dim gwybodaeth i'w hadrodd.<br>*No information to report.* |
| **7.** | **Gohebiaeth / *Correspondence***<br><br>i. **Apêl Cadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin 2020/21** - cais am nawdd, codi arian ar gyfer Prostate Cancer UK ac Eglwys Sant Pedr.<br>***Carmarthenshire County Council Chair's Appeal 2020/21*** *– request for sponsorship, raising funds for Prostate Cancer UK and St Peter's Church.*<br><br>ii. **Un Llais Cymru** – Ffurflen Aelodaeth<br>***One Voice Wales*** *– Membership form* |
| **8.** | **Ceisiadau cynllunio / *Planning applications***<br>Dim / *None.* |

| | |
|---|---|
| **9.**<br><br><br><br>**i.**<br><br><br><br><br>**ii.** | **<u>Materion ariannol / *Financial matters*</u>**<br>Balans yn y cyfrif banc - £5,112.16 ar 17/02/2021.<br>*Bank Account balance - £5,112.16 as of 17/02/2021.*<br><br>**Rhoddion a thaliadau / *Donations & Payments***<br>• 000785 – One Voice Wales Membership - £72.00<br>• 000786 – Carmarthenshire County Council Chair's Appeal 2020/21 - £100<br>• 000787 - Angharad Lewis - £160.60 – Clerks Wages for March 2021.<br>• 000788 - HM Revenue & Customs - £40.20 – Clerks Tax & NI for March 2021.<br><br>**Crynodeb Chwarterol o'r cyfrifon** – Bydd y clerc yn paratoi crynodeb ar ddiwedd y chwarter nesaf, cyfnod Ionawr – Mawrth 2021 ac yna bob chwarter.<br>***Quarterly Summary of Accounts -*** *The clerk will prepare a summary at the end of the next quarter, January - March 2021 and then quarterly.* |
| **10.** | **<u>Coronafeirws / *Coronavirus (Covid-19)*</u>**<br>Dim / *None.* |
| **11.** | **<u>Unrhyw fusnes arall / Any other business</u>**<br><br>i. **Prosiect Llwybr Natur / Taith Gylchol Llansawel** - Mae'r Cynghorwyr yn awyddus i ddarparu llwybr / taith gerdded leol. Soniodd y Cynghorydd Pat Racher fod Cyngor Llanedi wedi creu taith gerdded natur yn ddiweddar. Soniodd y Cyng. Eirwyn Williams fod Cynghorau Cymuned bellach yn gyfrifol am lwybrau cyhoeddus. Bydd y Cyng. Pat Racher yn cysylltu â Chyngor Llanedi a bydd y Clerc yn cysylltu â'r swyddog llwybrau troed i gael cyngor ar arwyddion a holi am y grantiau sydd ar gael.<br>***Llansawel Nature Trail / Circular Walk project*** *– Cllrs are keen to provide a local path / walk. Cllr Pat Racher mentioned that Llanedi Council have recently created a nature walk. Cllr. Eirwyn Williams mentioned that Community Councils are now responsible for public footpaths. Cllr Pat Racher to contact Llanedi Council and the Clerk will contact the footpaths officer for advice on signage and enquire about available grants.*<br><br>ii. **Coeden wedi cwympo ar lan yr afon** - Adroddodd y Cyng. Rhys George fod coeden wedi cwympo ar dir preifat a bod y perchennog wedi gwneud trefniadau i'r goeden gael ei symud.<br>***Fallen Tree on the river bank*** *– Cllr Rhys George reported that a tree has fallen on private land and that arrangements have been made by the owner for the tree to be removed.*<br><br>iii. **Myrtle Hill** - Adroddwyd bod coed yn cael eu torri i lawr a changhennau'n cael eu taflu i lawr cefn y tŷ i'r nant. Bydd y Cyng. Eirwyn Williams yn cysylltu ag R. Carmichael i fynd i'r afael â'r mater.<br>***Myrtle Hill*** *- It was reported that trees are being cut down and branches are being thrown down the back of the house into the stream. Cllr Eirwyn Williams will contact R. Carmichael to address the issue.* |
| **12.** | **<u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf / *Date and time of next meeting*</u>**<br>15fed o Ebrill 2021 am 19:30 trwy Zoom.<br>*15th of April 2021 at 19:30 via Zoom.* |
| Heb unrhyw fusnes arall i'w drafod, caeodd y Cadeirydd y cyfarfod am 20:58.<br>*With no other business to discuss, the Chair closed the meeting at 20:58.* | |

**Arwyddwyd / Signed ………………………………. Dyddiad / Date ………………………**